*This document is available in English*

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**PWYLLGOR ARCHWILO**

Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Archwilio Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 11 Medi 2017 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub yn Llanelwy. Dechreuodd y cyfarfod am 2 o'r gloch y prynhawn.

YN BRESENNOL

Cynghorwyr:

| | |
|---|---|
| J R Skelland (Cadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| B Apsley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| A Daniels | Cyngor Gwynedd |
| A I Dunbar | Cyngor Sir y Fflint |
| P Evans | Cyngor Sir Ddinbych |
| I D Lloyd | Cyngor Gwynedd |
| G Lowe | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| D Rees | Cyngor Sir Ynys Môn |
| W P Shotton | Cyngor Sir y Fflint |
| W O Thomas | Cyngor Sir y Fflint |

HEFYD YN BRESENNOL:

D Docx (Dirprwy Brif Swyddog Tân); K Finch (Trysorydd): G Owens (Dirprwy Glerc); S Forrest (Pennaeth Gwasanaethau Cyfrifyddiaeth a Thrysorlys, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); K V Williams (Adran Archwilio, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); A Hughes (Swyddfa Archwilio Cymru); A Davies (Swyddog Cyswllt Aelodau).

YMDDIHEURIADAU:

Cynghorwyr:

| | |
|---|---|
| S Glyn | Cyngor Gwynedd |
| S Lloyd-Williams | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| N Smith | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| D Wisinger | Cyngor Sir y Fflint |

1 DATGAN BUDDIANNAU

1.1 Dim.

2 COFNODON Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 10 GORFFENNAF 2017

2.1 Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Gorffennaf 2017 eu cyflwyno i'w cymeradwyo.

2.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gofnod cywir.**

3 MATERION YN CODI

3.1 *Datganiad Llywodraethu Blynyddol – tynnodd y DBST sylw'r aelodau at y ffaith fod y Datganiad wedi cael ei ystyried yn y cyfarfod ym mis Gorffennaf ond roedd wedi cael ei ddiwygio yn dilyn trafodaeth â Swyddfa Archwilio Cymru ac roedd yn cael ei ail-gyflwyno i gael ei ystyried yn y cyfarfod hwn.*

3.2 *Archwiliad o ddiogeledd seiber – bu oedi cyn cynnal yr archwiliad hwn ond roedd yn mynd yn ei flaen erbyn hyn ac roedd disgwyl iddo gael ei gwblhau cyn bo hir.*

I ymateb i gais gan y Cadeirydd, cytunodd yr aelodau i roi trefn newydd ar y agenda felly roedd y datganiad o gyfrifon yn mynd i gael ei drafod gyda'r archwiliad o ddatganiadau ariannol ar ddiwedd y cyfarfod.

4 DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

4.1 Cyflwynodd y DBST y datganiad llywodraethu blynyddol i'r aelodau i gael eu sylwadau cyn iddo gael ei gyflwyno gyda'r set lawn o gyfrifon. Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn ffordd o adrodd yn gyhoeddus i ba raddau y mae Awdurdod yn cydymffurfio â'i God Llywodraethu Blynyddol ei hun.

4.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo cynnwys datganiad llywodraethu blynyddol 2016/17.**

5 GWEITHGAREDD RHEOLI'R TRYSORLYS A'R DANGOSYDDION DARBODUS

5.1 Cyflwynwyd yr adroddiad er mwyn i'r Pwyllgor Archwilio adolygu'r adroddiad cyn ei gyflwyno i'r Awdurdod Tân ac Achub. Mae'n un o ofynion Cod Darbodus CIPFA fod dangosyddion darbodus yn cael eu monitro'n rheolaidd a bod unrhyw newidiadau sylweddol yn cael eu cymeradwyo. Hefyd, mae angen adrodd ynghylch benthyciadau tymor hir a phartïon i gontract fel rhan o god CIPFA ar Reoli'r Trysorlys.

5.2 Rhoddodd Sandra Forrest gyflwyniad yn y cyfarfod, a rhoi taflenni i'r Aelodau a oedd yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol am y rhaglen gyfalaf, benthyciadau a chyfraddau llog. Atebodd Ms Forrest gwestiynau'r Aelodau, a chadarnhawyd bod yr Awdurdod wedi cydymffurfio â'r holl ofynion statudol a rheoleiddiol sy'n cyfyngu ar lefel y risg sy'n gysylltiedig â'i weithgaredd rheoli'r trysorlys.

5.3 Nodwyd y pwyntiau allweddol a ganlyn:

5.3.1 Y tri dangosydd darbodus allweddol - mae'r gofyniad ariannu cyfalaf, terfyn gweithredol a'r cyfyngiad awdurdodedig ar gyfer 2017-2018 wedi cael eu newid oherwydd bod y gwariant gwirioneddol ar y rhaglen gyfalaf ar gyfer 2016-2017 yn is na'r alldro a amcangyfrifiwyd.

5.3.2 Cafodd yr Aelodau wybod am yr ail Gyfarwyddeb Marchnadoedd mewn Offerynnau Ariannol (MiFID II) a fydd yn newid y ffordd y gall awdurdodau lleol gael gwasanaethau ariannol o fis Ionawr 2018 ymlaen. Er mwyn i awdurdodau lleol gael mynediad at farchnadoedd ariannol, bydd angen iddynt ddal £10 miliwn mewn buddsoddiadau i gael eu categoreiddio'n

gleient 'proffesiynol'. Os nad ydynt yn cael statws 'proffesiynol', ni fyddant yn gallu delio drwy'r cwmnïau broceri y maent yn eu defnyddio ar hyn o bryd oherwydd byddant yn cael eu categoreiddio fel 'manwerthu'. Nid oes yr un o'r prif gwmnïau broceru a chynghori wedi'u hawdurdodi ar hyn o bryd i wasanaethu cleientiaid manwerthu, gan gynnwys Arlingclose, cynghorwyr trysorlys yr Awdurdod.

5.3.3 Mynegodd yr aelodau bryder mawr am MiFID II a'r goblygiadau o'i herwydd. Ar ôl trafod y mater am gryn amser, cytunwyd y byddai llythyr yn cael ei anfon at yr awdurdodau perthnasol, gan gynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA), yr LGA, Llywodraeth y DU, yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol, CIPFA, i fynegi pryder am y statws 'manwerthu' arfaethedig a fyddai'n cael ei roi i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru. Teimlid y dylai'r llythyr gael ei gopïo hefyd i bob Aelod Cynulliad ac Aelod Seneddol yng Ngogledd Cymru. Cadarnhaodd y DBST fod yr ATAau eraill yn yr un sefyllfa ac y byddai'r mater yn cael ei drafod yn y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Materion Cenedlaethol. Byddai'r llythyr yn cael ei gopïo i aelodau'r Pwyllgor Archwilio hefyd.

5.4 **PENDERFYNWYD argymell y canlynol i'r Awdurdod Tân ac Achub:**
**(i) bod y dangosyddion darbodus diwygiedig yn cael eu cymeradwyo;**
**(ii) bod y Trysorydd yn anfon llythyr at bob awdurdod perthnasol, gan gynnwys Aelodau Seneddol ac Aelodau Cynulliad, i fynegi pryder am MiFID II a'r statws manwerthu arfaethedig i ATAGC.**

6 PARATOI'R GYLLIDEB AR GYFER 2018/19

6.1 Rhoddodd y DBST gyflwyniad ar "faterion ariannu" a oedd yn rhoi trosolwg i'r aelodau o'r gwaith sy'n gysylltiedig â pharatoi'r gyllideb ar gyfer 2018-19 a'r tu hwnt.

6.2 Rhoddodd DBST esboniad o 'strategaeth gyson' yr Awdurdod dros y blynyddol, a oedd wedi cynnwys amryw o ddulliau er mwyn lleihau'r gyllideb tra hefyd yn adeiladu cronfa gyffredinol wrth gefn ar gyfer y dyfodol; hefyd, roedd yr Awdurdod wedi cadw at ei raglen gyfalaf tymor hir a gynlluniwyd i uwchraddio holl safleoedd GTAGC, ac roedd hon wedi cael ei chwblhau erbyn hyn.

6.3 Mae'r pwysau hysbys ar gyllideb 2018-19 yn cynnwys dyfarniadau cyflog i weithwyr, costau cynnal a chadw'r ystâd a defnyddio cronfeydd wrth gefn i danategu'r gyllideb. Mae rhai o'r opsiynau sydd ar gael i ddelio â'r pwysau ar y gyllideb ac i sicrhau cyllideb fantoledig yn cynnwys ailbrisio cyfalaf (£348,000), talu'r cynllun pensiwn llywodraeth leol ymlaen llaw (£46,000) a lleihau llinellau eraill yn gyllideb er mwyn arbed £100,000. Opsiwn arall i'w ystyried oedd cynyddu cyfraniadau'r awdurdodau lleol.

6.4 **PENDERFYNWYD:**
**(i) nodi'r wybodaeth a ddarparwyd; a**
**(ii) gofyn i aelodau'r Pwyllgor Archwilio gael gwybod am waith paratoi'r gyllideb ar gyfer 2018 a'r tu hwnt.**

7 DATGANIAD O GYFRIFON 2016-17 AC ADRODDIAD ARCHWIIO DATGANIADAU ARIANNOL

7.1 Roedd y Pwyllgor Archwilio wedi cael y dasg o graffu'n effeithiol ar yr adroddiadau ariannol, ac o wneud argymhellion i'r Awdurdod ar sail canfyddiadau'r aelodau. Er mwyn cydymffurfio â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Diwygio) (Cymru) 2010, rhaid cymeradwyo'r datganiadau erbyn 30 Medi.

7.2 Esboniodd y Trysorydd fod angen diwygio'r datganiad o gyfrifon a gyflwynwyd i'r cyfarfod hwn, a hynny o ganlyniad i'r gwaith archwilio a gafodd ei wneud gan Swyddfa Archwilio Cymru.

7.3 Mynegodd y Cadeirydd bryderon nad oedd y materion wedi cael eu datrys cyn y cyfarfod, ac esboniodd y Trysorydd mai oherwydd gwahanol broblemau, gan gynnwys amserlenni Swyddfa Archwilio Cymru a'r prinder adnoddau ac amser a oedd ar gael i'r tîm cyfrifyddu, allu eu datrys. Esboniodd Amanda Hughes o Swyddfa Archwilio Cymru fod rhai materion cymhleth wedi cael eu codi yn natganiadau o gyfrifon y tri ATA yng Nghymru, felly roedd rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru gael cyngor technegol.

7.4 Rhagwelid y bydd pob mater yn cael ei ddatrys yn foddhaol erbyn y dyddiad cau ar 30 Medi ac y bydd y datganiad diwygiedig o gyfrifon yn cael ei gyflwyno i gyfarfod yr ATA ar 18 Medi 2017 er mwyn iddynt gael eu cymeradwyo.

7.5 **PENDERFYNWYD nodi'r canlynol**

**(i) y sefyllfa ar hyn o bryd; a**

**(ii) y bydd datganiad diwygiedig o gyfrifon yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod ar 18 Medi 2017.**